

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMDEITHAS TREARDDUR A GYNHALIWDYD YN NEUADD BENTREF BAE TREARDDUR 6.30 NOS FAWRTH 24 MEDI 2019.

PRESENNOL: Cynghorydd - Eric Roberts, Cadeirydd

Cynghorwyr J. Abbott MBE, A. D. McCann, C. McDermott S. Conrad-Smith, A. D. McCann, Geoff McGinn, S. Magee, P. M. Parry, K. Roberts, H. B. Rowlands, D. Rhys Thomas J.P. a D. A. Williams

GWR GWADD – Mr Dylan Edwards, Cyngor Sir Ynys Môn.

Daeth Mr Edwards i'r cyfarfod i esbonio'r sefyllfa ynglyn â throsglwyddo prydles y GWR GWADD – Mr Dylan Edwards, Cyngor Sir Ynys Môn.

Daeth Mr Edwards i'r cyfarfod i esbonio'r sefyllfa ynglŷn â throsglwyddo prydles y safle hamdden. Roedd 19 o flynyddoedd i'w rhedeg ar y brydles a byddai'n dod i ben ar 24 Rhagfyr 2038, byddai'n ofynnol i'r landlord adnewyddu'r denantiaeth ar delerau tebyg (ac eithrio ar gyfer rhent) pryd hynna. Roedd yn brydles gymharol syml gyda dim ond 8 o gyfamodau i'r tenant i rheini i gyd yn ymddangos yn deg a rhesymol. (Er y nodwyd nad oedd y rhai a oedd yn cyfeirio at gynnal a chadw adeiladau yn gymwys bellach). Cyfamodau'r perchennog oedd: darparu mwynhad tawel, cadw waliau a ffensys o amgylch y ffiniau mewn cyflwr da, a phaentio'n allanol bob tair blynedd.

Roedd y rhent o £56.40 y flwyddyn i'w dalu a byddai'n rhaid i'r Cyngor Cymuned sicrhau bod hyn yn cael ei dalu'n brydlon pob amser.

Cadarnhawyd bod yr ardal wedi'i dynodi'n ardal llifogydd a byddai cyfyngiadau cynllunio arno. Mynegodd yr Aelodau bryderon am y gwaith o gynnal a chadw'r ffos ar gwr y tir, ond rhoddwyd sicrwydd iddynt ei fod wedi'i glirio tua 8 mlynedd ynghynt ac nad oedd yn gost fawr pe bai'n rhaid ei wneud eto.

1. **YMDDIHEURIADAU** - dim

2. **DATGANIAD O DDIDDORDEB** - dim

3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Penderfynwyd: cymeradwyo cofnodion 30 Gorffennaf 2019. Cyng. G. McGinn, eilio A. McCann) a 3 Medi 2019 (cyn. H. B. Rowlands, eilio K. Roberts).

4. **MATERION YN CODI O'R COFNODION**

4.1 Beicio ar y promenâd

Roedd beiciau trydan yn broblem ar y promenâd, a phenderfynwyd gofyn am gael gosod arwyddion rhybuddio ar bob pwynt mynediad.

4.2 Binau maes chwarae:

Roedd y Cynghorydd Bill Rowlands wedi bod yn trosglwyddo cynnwys y binau gwastraff i rai eraill gan nad oedd y bin presennol yn ddigon mawr. Gallai'r Cyngor brynu bin 240 litr ychwanegol ond byddai'n rhaid iddo gael ei gasglu yn amlach na phob tair wythnos, roedd tâl sefydlog o £21 yr un am gasgliadau ychwanegol. Byddai Cyng. Rowlands yn edrych ar hyn ymhellach.

5. **GOHEBIAETH** -

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMDEITHAS TREARDDUR A GYNHALIWYD YN NEUADD BENTREF BAE TREARDDUR 6.30 NOS FAWRTH 24 MEDI 2019.

- 5.1 Ddeddf yr Amgylchedd Cymru 2016 - Dyletswydd Cyngorau Chymuned a Thref o dan Adran – Roedd cynghorau tref a chymuned wedi cael addewid o arweiniad swyddogol ar hyn.
- 5.2 Model Reoliadau Ariannol Diwygiedig - Byddai'r clerch yn dosbarthu hon.
- 5.3 New Governance & Accountability A Practitioner's Guide Wales 2019 – (mewn Saesneg yn unig) - i'w dosbarthu.
- 5.4 Fforwm Cyswllt y Cyngorau Tref a Chymuned (cofnodion) - Cyflwynwyd a nodwyd.
- 5.5 Swyddfa Archwilio Cymru - Rhaglen Ymarfer Dda - 2019/20 - i'w rhannu
- 5.6 Morlais: Hysbysiad Cyhoeddus - Cyflwynwyd a nodwyd.
- 5.7 Comisiwn Ffiniau A Democratiaeth Leol Cymru -
Cydnabuwyd nad oedd gan y Cyngor Sir ddigon o gynghorwyr i gynrychioli'r etholaeth ac y dylid cynyddu eu niferoedd i o leiaf 33.
- 5.8 Cyfansoddiad HJ Burial Board - Cyflwynwyd a nodwyd.
- 5.9 Hyfforddiant - Anfonwyd copi o gynllun hyfforddi'r Cyngor at y Pwyllgor Safonau, yn unol â'i gais, a thrafodwyd manylion y digwyddiadau hyfforddi sydd i ddod.
- 5.10 Gwasanaeth Sul y Cadeirydd – 13.10.2019
- 5.11 Cais am rodd gan y clwb pêl-droed: penderfynwyd rhoi £200 a thrafod materion ariannol gyda nhw cyn gynted ag y trosglwyddir prydles y maes hamdden.

6. SAFLE HAMDDEN

Cytunwyd yn unfrydol i ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol i gyfreithwyr y Cyngor i baratoi'r dogfennau cyfreithiol a bwrw ymlaen â'r camau llys i sicrhau bod y brydles yn cael ei throsglwyddo.

7. MAES CHWARAE

Roedd y clerch i atgoffa MacVenture Play Ltd ynghylch â gwneud gwaith cynnal ar gadwynau siglen y babanod, ac i archebu arwyddion newydd ar gyfer y lle chwarae.

8. ADRODDIADAU CYNGHORWYR

8.1 Cynghorydd David Williams

Roedd eisiau diweddariad ar yr arwyddion cyflymder y gofynnwyd amdanynt ar gyfer Bae Trearddur. Dywedodd fod y broblem gyda Japaneze Knotweed wrth faes parcio Clwb Golf Caergybi o hyd.

8.2 Cynghorydd Bill Rowlands

Adroddodd ar yr hyfforddiant a ddarparwyd gan Gymorth Cynllunio Cymru yn ddiweddar.

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMDEITHAS TREARDDUR A GYNHALIWDYD YN NEUADD BENTREF BAE TREARDDUR 6.30 NOS FAWRTH 24 MEDI 2019.

8.3 Cyngorydd Stephen Magee

Dywedodd fod yr hen adeilad gynau ar fynydd Caergybi yn dod lawr a bod angen ei wneud yn ddiogel. Byddai'r cleric yn cysylltu â CSYM a'r RSPB.

8.4 Cyngorydd Paula Parry

Mynegodd bryderon ynglŷn ag erydiad yr arfordir wrth Telford Lodge, deallir mai eiddo preifat oedd hwn.

9. CYLLID, GWEINYDDU A RHEOLI RISG

Cyflwynwyd a nodwyd: Adroddiad am y cyfnod 1.6.2019 i 31.8.2019 ynghyd â chysoniad banc a Chyfrifon Banc.

Cyfrifon terfynol 2018/19 – Roedd yr archwilwyr allanol wedi cymeradwyo'r cyfrifon terfynol heb godi unrhyw faterion.

10. TALIADAU - Penderfynwyd: Cadarnhau a thalu'r canlynol:-

Cyflog Awst	£456.32	Cyflog Medi	£456.28
H. J. Burial Board	£2466.03	Trearddur Bay FC	£200

11. PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO

11.1 LUE/2019/10 15 Parc Isallt Park, Bae Trearddur Bay

Cais am dystysgrif datblygiad cyfreithlon ar gyfer y defnydd presennol o annedd breswyl ar dir ger 15 Parc Isallt- cytunwyd

12. CEISIADAU CYNLLUNIO

12.1 FPL/2019/240 Henborth, Ynys Lawd / South Stack

Cais llawn ar gyfer ail-adeiladu grisiau / llwybr newydd ar glogwyn y môr i greu mynediad i'r traeth - Penderfynwyd gofyn a mai llwybr troed cyhoeddus oedd hwn.

12.2 LUP/2019/8 Datblygu tir wrth Trearddur Bay Hotel

Cafwyd adroddiad cynhwysfawr o gyfarfod rhwng 'TBR&T Association' a swyddogion cynllunio CSYM gan Cyng. Bill Rowlands. Roedd y Cyngor Cymuned yn rhannu eu pryderon ond roedd Aelodau yn hapus â'r ymateb a anfonwyd eisoes. Eitem 6.2, 3 Medi 2019 yn cyfeirio.

12.3 FPL/2019/237 Ynys Lawd.

Cais llawn i osod antena cyflenwol tenau, 2 soser trawsyrru ac 1 antena GPS ynghyd â gwaith ategol – dim sylwadau.

12.4 VAR/2019/66 at Ty Calva, Ravenspoint Road, Bae Trearddur Bay

Cais o dan Adran 73 ar gyfer diwygio amod (02) o ganiatad cynllunio 46C392F (addasu ag ehangu gan cynnwys ffenestr dormer sydd yn cynnwys balconi) er mwyn diwygio y cynlluniau sydd wedi ei ganiatau i gynnwys ffenestr gromen - dim gwrthwynebiad.

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMDEITHAS TREARDDUR A GYNHALIWDYD YN NEUADD BENTREF BAE TREARDDUR 6.30 NOS FAWRTH 24 MEDI 2019.

12.5 D28/2018/1 Ynys Lawd.

Cais i bennu os oes angen caniatâd blaenorol ar gyfer tynnu mast 13 medr uchder ynghyd a gosod mast 15 medr uchder yn ei le – dim sylwadau.

12.6 HHP/2019/153 Ravenspoint, Ravenspoint Estate, Bae Trearddur Bay

Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu - dim gwrthwynebiad

12.7 HHP 2019/224 Rhianfa, Bae Trearddur Bay

Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu – dim gwrthwynebiad.

13. NEXT MEETING 29.10.2019